**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**
—
**Public Accounts and Public Administration Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCCGG@Senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCCGG
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddPAPA@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPAPA
0300 200 6565

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd, Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

5 Gorffennaf 2023

Trafnidiaeth Cymru yn Caffael Cerbydau Rheilffyrdd

Annwyl Llyr,

Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus wedi cael gohebiaeth ynghylch Trafnidiaeth Cymru yn caffael/cyflenwi yr hyn a ddeallwn yw pum trên batri/diesel hybrid 'Dosbarth 230' gan VivaRail, ac yn sgil penodi gweinyddwyr i'r cwmni.

Mae'r ohebiaeth yn codi pryderon am yr effaith y gallai'r datblygiadau hyn ei chael ar gynlluniau i ddod â'r trenau hyn i mewn i wasanaeth, a'r oedi hyd yma. I'n cynorthwyo gyda'n hystyriaeth gychwynnol o faterion a nodwyd yn yr ohebiaeth, ysgrifennais at Brif Weithredwr Trafnidiaeth Cymru yn gofyn am ragor o fanylion am y trefniadau hyn. Rwyf wedi atodi copi o'r llythyr a'r ymateb iddo, er gwybodaeth i chi.

Rhoddodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ystyriaeth i'r ymateb yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mehefin 2023, a chytunodd i gyfeirio'r materion hyn at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith. Deallwn y bydd y Pwyllgor yn cynllunio ei waith craffu blynyddol ar Drafnidiaeth Cymru yn yr hydref, ac y bydd y gwaith hwnnw'n cynnwys y materion hyn. Mae problemau amlwg gyda gweithrediad gwasanaethau rheilffyrdd Cymru, ac mae pryderon ynghylch yr ymateb a gafwyd gan Mr Price mewn perthynas â chaffael y cerbydau hyn gan Trafnidiaeth Cymru.

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

**Senedd Cymru**
**Welsh Parliament**

Er bod rhai o'r materion hyn yn dod o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, fel y trefniadau cytundebol yr ymrwymwyd iddynt gan Trafnidiaeth Cymru, cyfanswm y costau i'r pwrs cyhoeddus hyd yma, sut y caiff y costau hyn eu dadansoddi, ac unrhyw ddyledion sy'n weddill i'r naill gyfeiriad neu'r llall, sy'n faterion gwerth am arian clir, credwn y dylid craffu ar y materion hyn ochr yn ochr â materion polisi ehangach y gall y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith edrych arnynt.

Fodd bynnag, byddwn yn cadw'r hawl i graffu ar Drafnidiaeth Cymru ar faterion sy'n ymwneud yn benodol â chylch gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus os yw'r Pwyllgor yn teimlo bod rhagor o faterion i'w datrys.

Yn gywir,

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus